**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483 (GARTH ROAD A FFORDD Y PARC, LLANFAIR-YM-MUALLT, POWYS) (GWAHARDD AROS) 202-**

**DATGANIAD O'R RHESYMAU**

Bydd y Gorchymyn arfaethedig yn dirymu 'Gorchymyn Cefnffordd (Llanfair-ym-Muallt, Powys) (Gwahardd Aros) 1979' a bydd yn ailosod cyfyngiadau gwahardd aros penodol o'r Gorchymyn blaenorol ac yn cyflwyno cyfyngiadau gwahardd aros newydd ar hyd y darnau o'r briffordd a bennir yn y Gorchymyn arfaethedig.

Mae angen y Gorchymyn arfaethedig i fynd i'r afael â'r perygl a achosir i gerddwyr a defnyddwyr y ffyrdd gan gerbydau sy'n parcio a/neu yn aros ar hyd Garth Road a Ffordd y Parc. Mae'r Gorchymyn arfaethedig hefyd yn mynd i'r afael â lled y gerbytffordd sydd wedi'i leihau, ar hyd rhannau o gefnffordd yr A483 lle y mae cerbydau ar hyn o bryd yn aros a/neu yn parcio, a allai gyfyngu ar lif y traffig ar hyd y darnau hyn o'r briffordd.

**THE A483 TRUNK ROAD (GARTH ROAD AND PARK ROAD, BUILTH WELLS, POWYS) (PROHIBITION OF WAITING) ORDER 202-**

**STATEMENT OF REASONS**

The proposed Order will revoke 'The Trunk Road (Builth Wells, Powys) (Prohibition of Waiting) Order 1979' and will re-impose certain prohibition of waiting restrictions from the previous Order and introduce new prohibition of waiting restrictions along the lengths of highway specified in the proposed Order.

The proposed Order is required to address the danger caused to pedestrians and road users by vehicles parking and/or waiting along Garth Road and Park Road. The proposed Order also addresses the reduced carriageway widths, along sections of the A483 trunk road where vehicles currently wait and/or park, which potentially restricting the flow of traffic along these lengths of highway.